

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad Blynyddol 2014/15



**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

© Hawlfraint y Goron 2015

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.bcomm-wales.gov.uk

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014/15

Mehefin 2015

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL
Ffôn: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffacs: +44 (0)29 20464823
E-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	2
Amcanion	5
Canlyniadau	6
Cyllideb a Gwariant	8
Rhaglen Waith ar gyfer 2015/16	9

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15.

Heb unrhyw waith arolwg byw ar hyn o bryd, bu hon yn flwyddyn dawel i'r Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn, darparom wybodaeth i Adolygiad Tair Blynedd Swyddfa'r Cabinet o Gomisiynau Ffiniau'r DU. Cyhoeddwyd adroddiad yr arolwg hwn yn ddiweddar, ac yn ystod y flwyddyn nesaf hon byddwn yn ystyried ac yn gweithredu ei argymhellion.

Cyfranogodd y Comisiwn yn ymchwiliad y Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol i'r rheolau ynglŷn ag arolygon o etholaethau seneddol. Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad hwn ym mis Mawrth 2015, ac rydym yn disgwyl yn eiddgar am ymateb y llywodraeth gan y gallai hyn gael effaith sylweddol ar yr arolwg nesaf o etholaethau seneddol sydd i ddechrau yn 2016.

Yr Anrhydeddus Meistr Ustus Wyn Williams
Dirprwy Gadeirydd

1. Cyflwyniad

Y Noddwr

1.1 Corff Cyhoeddus Anadrannol cyngorol ac a ariennir yn gyfan gwbl gan Swyddfa'r Cabinet yw'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol yw eu cyflwyno gerbron y Senedd. Lle bo'r adroddiad yn argymhell bod angen gwneud addasiadau i ffiniau etholaethau Seneddol, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd gyflwyno copi drafft o Orchymyn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd, er mwyn dod ag argymhellion y Comisiwn i rym. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Dirprwy Gadeirydd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi aelodau'r Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol, a'r Ysgrifennydd i'r Comisiwn (gweler Aelodaeth isod).

Y Comisiwn

1.2 Mae'r Comisiwn wedi'i sefydlu o dan adran 2 ac atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Corff annibynnol, anwleidyddol a chwbl amhleidiol ydyw. Nid yw'r Comisiwn yn ystyried ffactorau gwleidyddol ac ni chaiff effeithiau argymhellion y Comisiwn ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol eu hystyried.

1.3 O 1 Ionawr 2002, mae swyddogion Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC)¹, a leolir yng Nghaerdydd, wedi staffio Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau hefyd. Er bod adeiladau a rhai adnoddau staff yn cael eu rhannu, mae'r ddau Gomisiwn yn gweithredu'n annibynnol i'w gilydd.

Aelodaeth

1.4 Siaradwr Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd yn rhinwedd ei swydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig. Mae penodi'r Siaradwr yn pwysleisio annibyniaeth, amhleidioldeb a natur anwleidyddol y Comisiynau. Nid yw'r Siaradwr yn cyfrannu o gwbl at gynnal arolygon. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n eistedd yn y cyfarfodydd, yn Farnwr yn yr Uchel Lys: yr Anrhydeddus Meistr Wyn Williams a benodwyd hyd at ddiwedd mis Medi 2017. Yr Aelodau yw Mr Paul Loveluck a'r Athro Robert M^cNabb, a phenodwyd y ddau hyd at ddiwedd mis Medi 2016.

1.5 Caiff y Comisiynwyr eu penodi'n rhan-amser a byddant yn cyfarfod pryd bynnag y bydd y rhaglen waith yn gofyn am hynny. Ers pasio Deddf y Comisiwn Ffiniau 1992, mae Aelodau'r Comisiwn (ac eithrio'r Dirprwy

¹ Newidiwyd yr enw o'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Gadeirydd) wedi cael ffi ddyddiol y cytunir arni gan yr Adran Nawdd gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer gwaith a wneir ar ran y Comisiwn a chyda'r Dirprwy Gadeirydd, ac mae ganddynt hawl i adennill unrhyw dreuliau (megis costau teithio a chynhaliaeth) yr eir iddynt yng ngwaith y Comisiwn.

- 1.6** Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cod Ymarfer a Chofrestr o Fuddiannau Aelodau, sy'n cael eu diweddarau bob blwyddyn. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael ar gais.
- 1.7** Mae gan y Comisiwn ddau aseswr statudol. Un o'r rhain yw'r Bwrdd Ystadegau (a gynrychiolir gan yr Ystadegydd Gwladol), a'r llall yw Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans. Mae dirprwyon yn cynrychioli'r ddau yng nghyfarfodydd y Comisiwn.
- 1.8** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn penodi Ysgrifennydd i'r Comisiwn. O dan drefniadau'r Ysgrifenyddiaeth ar y cyd, mae Mr Steve Halsall yn Brif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru hefyd.
- 1.9** Rôl yr Ysgrifenyddiaeth yw gwasanaethu a chynorthwyo'r Comisiynwyr wrth gynnal eu harolygon a gwneud eu penderfyniadau. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gweithio yn swyddfeydd Ysgrifenyddiaeth CFdLC yng Nghaerdydd a chysylltir â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â staffio ac adeiladau.

Dyletswyddau Statudol

- 1.10** Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw parhau i adolygu dosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol, cynnal arolygon rheolaidd o ffiniau etholaethau Seneddol a llunio adroddiadau gydag argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).
- 1.11** Gwnaeth Deddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu dosbarthiad seddau Seneddol.
- 1.12** Roedd y Ddeddf yn dileu'r cysylltiad rhwng yr etholaethau Seneddol ac etholaethau Cynulliad Cymru hefyd. Effaith hyn, nes y rhoddir deddfwriaeth newydd yn ei lle, yw diffyg unrhyw fecanwaith ar gyfer arolygu etholaethau Cynulliad Cymru yn rheolaidd.
- 1.13** Fe wnaeth Deddf Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu 2013 ddiwygio Deddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011. Newidiodd hyn y dyddiad pan fydd rhaid i'r Comisiwn adrodd ei argymhellion i'r Senedd o 'cyn 1 Hydref 2013' i 'heb fod cyn 1 Medi 2018 a chyn 1 Hydref 2018'. I bob pwrpas mae hyn yn golygu bod yr arolwg nesaf i gychwyn yng Ngwanwyn 2016 gyda gwaith paratoi yn cael ei wneud yn 2015.

2. Amcanion

Amcan Cyffredinol

2.1 Parhau i adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin a Chynulliad Cenedlaethol i Gymru² yn barhaus.

Amcanion Penodol ar gyfer 2014/15

2.2 Dyma oedd yr amcanion ar gyfer y Comisiwn yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15:

- Cynnal swyddfa i'r Comisiwn er mwyn ymdrin ag ymholiadau ac i ymgymryd â dyletswyddau statudol;
- Sicrhau bod holl waith y Comisiwn yn cael ei wneud gyda'r bwriad o gynnig y gwerth gorau posibl am arian;
- Sicrhau cadw'r wybodaeth a'r arbenigedd o fewn y Comisiwn; a
- Rhoi'r newidiadau ar waith i weithrediad y Comisiwn fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad Cau'r Arolwg.

Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn monitro canlyniadau argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn ystyried y goblygiadau i waith y Comisiwn.

Cynllun Iaith Gymraeg

2.3 Mae'r Comisiwn yn gweithredu polisi cwbl ddwyieithog. Bydd pob dogfennaeth swyddogol a gyhoeddir gan y Comisiwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth gan unigolion a sefydliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

² Gweler paragraff 1.12

3. Canlyniadau

Cyfarfodydd

3.1 Ni chynhaliodd y Comisiwn unrhyw gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ariannol, fodd bynnag, ymgynghorwyd yn rheolaidd â'r Comisiynwyr ynglŷn ag agweddau ar waith y Comisiwn drwy'r e-bost. Cyfarfu dau Gomisiynydd a'r Ysgrifenyddiaeth hefyd â chydweithwyr o Gomisiynau Ffiniau eraill y DU ym mis Tachwedd 2014 i drafod datblygiadau newydd a rhoi gwelliannau gweithredu ar waith.

Adolygiad Tair Blynedd

3.2 Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd Swyddfa'r Cabinet Adolygiad Tair Blynedd o Gomisiynau Ffiniau'r DU. Cyfranogodd y Comisiwn yn llawn gyda'r adolygiad hwn, drwy ddarparu gwybodaeth am weithrediad presennol a threfniadau llywodraethu'r Comisiwn. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad ar 26 Mawrth 2015. Bydd ystyried a gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad yn ffurfio rhan o'r gwaith sydd i'w wneud gan y Comisiwn yn ystod 2015-16.

Cydweithredu

3.3 Cynhaliodd Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad o'r enw 'What next on the redrawing of parliamentary constituency boundaries?' Darparodd y Comisiwn dystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad, a rhoddwyd tystiolaeth lafar hefyd gan yr Ysgrifennydd, ynghyd ag Ysgrifenyddion eraill Comisiwn Ffiniau'r DU. Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, nifer o argymhellion ar gyfer newidiadau i'r rheolau ar gyfer ail-lunio ffiniau etholaethau seneddol.

Llywodraeth Leol

3.4 Yn dilyn ymlaen o argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newidiadau i'r ddeddfwriaeth a fydd yn diwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Comisiwn wedi monitro'r cynigion hyn wrth iddynt ddod i law.

Yr Iaith Gymraeg

- 3.5** Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn ei adolygu a'i ddiweddarau. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Comisiwn ar weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg.

Hyfforddiant

- 3.6** Mae cyrsiau hyfforddi y mae'n ofynnol i aelodau staff eu mynychu wedi parhau eleni, ac yn cynnwys: Ymdrin â Chwynion, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Codi a Chario, Ymdrin â Cheisiadau am Wybodaeth, Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, Yr Iaith Gymraeg Cyn-Dysgu, Arweinyddiaeth, Cyflogres, Rheoli Cyfleusterau, Excel, PowerPoint, Datblygu Cynaliadwy, Rheoli Presenoldeb, Rheoli Perfformiad, Rheoli Prosiectau, Sgiliau Cyllid. Hefyd, cafodd Swyddog Arolygon newydd hyfforddiant penodol i'r swydd mewn perthynas â system gwybodaeth ddaearyddol y Comisiwn, a threfnwyd a chefnogwyd hyfforddiant mewnol. Mae hyfforddiant yn y Gymraeg wedi'i roi ar sail anffurfiol i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg, i'w helpu i wella'u hynganiad o enwau lleoedd Cymraeg

Gwybodaeth

- 3.7** Mae'r Comisiwn yn trefnu bod gymaint o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ag sy'n ymarferol drwy'r wefan (www.bcomm-wales.gov.uk). Ymatebir i geisiadau am wybodaeth nad yw ar gael ar y wefan. Mae gan y Comisiwn darged o 15 diwrnod i ymateb i'r cyfryw geisiadau. Yn 2014-15 derbyniom 16 cais am wybodaeth, ac ymatebwyd i bob un ohonynt cyn pen 15 diwrnod. Mae hyn yn cymharu â 10 cais yn 2013-14.
- 3.8** Yn ystod y flwyddyn ymchwiliodd staff y Comisiwn i'r posibilrwydd o ddefnyddio porth ar-lein yn seiliedig ar fapiau i gynnal ei ymgynghoriadau yn y dyfodol. Mae hyn yn eithaf tebyg o gynyddu'r lefelau ymgysylltu â'r broses arolwg ac ymgysylltu â chroestoriad ehangach o'r cyhoedd.

4. Cyllideb a Gwariant

Gwariant Ebrill 2014 hyd at Fawrth 2015

- 4.1 Mae Tabl 1 yn cymharu'r gwariant gwirioneddol â'r gyllideb, yn ystod y flwyddyn ariannol y mae a wnelo'r adroddiad hwn â hi.

Tabl 1 – Cyllideb a Gwariant

Elfen Gyllideb	Cyllideb (£)	Gwirioneddol (£)
Cyflogau Staff	45,000	45,000
Ffioedd Comisiynwyr a Chomisiynwyr Cynorthwyol	6,100	2,624
Adeilad y Swyddfa	27,000	27,000
Teithio a Chynhaliadaeth	1,500	871
Lletygarwch	120	0
TG a Thelathrebu	9,180	5,000
Costau Arolygon Eraill*	11,100	9,890
Cyfanswm	100,000	90,385

*yn cynnwys costau hyfforddiant, postio, argraffu a chyfieithu.

- 4.2 Ar gyfer 2014-15 cytunodd Swyddfa'r Cabinet i ddarparu cyllid penodedig o £100,000 i'r Comisiwn i dalu cost cynnal Ysgrifenyddiaeth yng Nghymru yn ystod blynyddoedd pan na wnaed unrhyw waith arolygon seneddol. Mae Tabl 1 yn dangos y categorïau amrywiol y dyrannwyd y cyllid penodedig iddynt. Y prif resymau am y tanwariant hwn oedd:

- Cyflwyno cyllid o £9,615 yn ôl i Swyddfa'r Cabinet fel addasiad ar gyfer tanwariant wedi'i amcangyfrif;
- Cynhaliwyd llai o gyfarfodydd y Comisiwn nag a ragwelwyd; ac
- Roedd y Comisiwn am gyflawni'r gwerth mwyaf posibl am arian yn ei holl waith.

5. Rhaglen Waith ar gyfer 2015/16

5.1 Fel a fynir gan y ddeddfwriaeth gyfredol, mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru i ddechrau'r arolwg nesaf (2018) o etholaethau seneddol yn 2016. Bydd angen gwneud gwaith paratoi cyn y dyddiad hwn. Amcanion penodol y Comisiwn yn 2014/15 fydd:

- Cynllunio gwaith a gofynion adnoddau'r arolwg sydd ar ddod. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer yr arolwg wedi'u cytuno ac yn eu lle;
- Sicrhau bod y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr arolwg, gan gynnwys data etholiadol, yn cael ei diweddarau a'i chadw;
- Cynhyrchu a chyhoeddi Llyfryn Gwybodaeth diwygiedig sy'n esbonio sut fydd proses yr arolwg yn gweithio;
- Cyhoeddi hysbysiad ynghylch dechrau Arolwg 2018, a dechrau llunio Cynigion Cychwynnol;
- Ystyried a gweithredu'r argymhellion i weithrediad y Comisiwn fel yr argymhellwyd yn adroddiad yr Adolygiad Tair Blynedd.
- Datblygu porth ar-lein yn seiliedig ar fapiau i'w ddefnyddio mewn ymgynghoriadau'r dyfodol.

5.2 Rydym yn disgwyl am ymateb y llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol. Gallai hyn gael effaith ar amserlen a gweithrediad yr arolwg o ffiniau seneddol. Bydd y Comisiwn yn monitro'r sefyllfa ac, os bydd angen, yn gwneud newidiadau priodol i'r rhaglen waith.

5.3 Bydd y Comisiwn hefyd yn monitro'r newidiadau i ddeddfwriaeth llywodraeth leol sy'n cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru.

Cyllideb

5.4 Er mwyn galluogi cyflawni'r amcanion a restrwyd yn 5.1 uchod, dyrannwyd cyllideb o £120,000 i'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16.

